

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – (ATODLEN A) TACHWEDD 2020

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31 HYDREF 2020 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21

Derbyn a chydabod cyd-adroddiad cynnydd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) yn dangos perfformiad o gymharu gyda'r gyllideb.

5. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Derbyn a chydabod adroddiad Clerc y Dref yn unol â pholisi'r cyngor mewn perthynas â chymeradwyo enwebiadau ar gyfer dyfarnu (copi'n amgaeedig).

6. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth hystyried yr eitemau canlynol, am resymau cyfrinachedd.

7. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ystyried, diwygio a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Cyllideb Flynyddol 2021/22 gan gynnwys Cynllun Adfer diwygiedig Cronfeydd Wrth Gefn Pum Mlynedd (copi'n amgaeedig) i'w argymhell i gyfarfod y cyngor i'w gynnal ar 16eg Rhagfyr 2020, ac argymhell praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022.

[Atgoffir yr aelodau y gallent ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod, ofyn am wybodaeth fanwl bellach ar y ffigurau neu'r materion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd pryder gyda Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeiryddion

y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol/Pwyllgor Cynlluno Strategol a Gweithredol]

8. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.